



Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o www.freebibleimages.org ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

Disgrifiad

Llun

Nodiadau

1 Brenhinoedd 18: 1-40



- 1 Am fod y brenin Ahab a'r rhan fwyaf o'r bobl yn addoli duw ffals o'r enw Baal roedd yr Arglwydd wedi dweud nad oedd gwliith na glaw i ddisgyn ar y tir. Yn ystod y drydedd flwyddyn o sychder dyma'r ARGLWYDD yn dweud wrth Elias. "Dos, a dangos dy hun i Ahab. Dw i'n mynd i anfon glaw ar y tir."



- 2 Roedd y brenin Ahab yn chwilio am Elias. Roedd y newyn yn ddrwg iawn yn Samaria ar y pryd. Felly dyma Ahab yn galw Obadeia, y swyddog oedd yn gyfrifol am redeg y palas. Dyma Ahab yn dweud wrtho, "Rhaid i ni fynd trwy'r wlad i gyd, at bob ffynnon a nant. Falle y down ni o hyd i ychydig borfa i gadw'r ceffylau a'r mulod yn fyw, yn lle bod rhaid i ni gollu pob un anifail." A dyma Ahab yn mynd i un cyfeiriad ac Obadeia yn mynd y ffordd arall.



-
- 3 Roedd Obadeia yn ddyn oedd yn addoli'r ARGLWYDD yn ffyddlon. Pan oedd Jesebel yn lladd proffwydi'r ARGLWYDD, roedd Obadeia wedi cymryd cant o broffwydi a'u cuddio nhw fesul pum deg mewn dwy ogof. Ac roedd yn rhoi bwyd iddyn nhw, a dŵr i'w yfed. Wrth i Obadeia fynd ar ei ffordd dyma Elias yn dod i'w gyfarfod. Dyma Obadeia'n nabod Elias, a dyma fe'n plygu ar ei liniau o'i flaen a dweud, "Ai ti ydy e go iawn, fy meistr, Elias?"



-
- 4 "Ie, fi ydy e," meddai Elias. "Dos i ddweud wrth dy feistr fy mod i yn ôl." Ond dyma Obadeia'n dweud, "Y funud bydda i'n dy adael di, bydd Ysbryd yr ARGLWYDD yn dy gario di i ffwrdd i rywle, a fydd gen i ddim syniad i ble. Os gwna i ddweud wrth Ahab fy mod wedi dy weld di, ac yntau wedyn yn methu dod o hyd i ti, bydd e'n fy lladd i!" Ond dyma Elias yn addo iddo, "Mor sicr â bod yr ARGLWYDD holl-bwerus yn fyw, bydda i'n cyfarfod Ahab heddiw."



-
- 5 Felly dyma Obadeia'n mynd i ddweud wrth Ahab. A dyma Ahab yn dod i gyfarfod Elias.



-
- 6 Pan welodd Ahab Elias dyma fe'n dweud, "Ai ti ydy e go iawn — yr un sy'n creu helynt i Israel?" Dyma Elias yn ateb, "Nid fi sydd wedi creu helynt i Israel. Ti a theulu dy dad sydd wedi gwrthod gwneud beth mae'r ARGLWYDD yn ei ddweud, a ti wedi addoli delwau o Baal! "



-
- 7 "Dw i eisiau i ti gasglu pobl Israel i gyd at ei gilydd wrth fynydd Carmel. Tyrd â'r holl broffwydi mae Jesebel yn eu cynnal yno — 450 o broffwydi Baal a 400 o broffwydi'r dduwies Ashera."



-
- 8 Felly dyma Ahab yn anfon neges at holl bobl Israel, a dod â'r proffwydi i gyd at ei gilydd i fynydd Carmel.



-
- 9 Roedd proffwydi Baal ac Ashera yn barod i wynebu Elias.



-
- 10 Daeth pawb at ei gilydd i fynydd Carmel.



-
- 11 Dyma Elias yn sefyll o flaen y bobl a gofyn iddyn nhw, "Am faint mwy dych chi'n mynd i eistedd ar y ffens? Os mai'r ARGLWYDD ydy'r Duw go iawn, dilynwch e, ond os mai Baal ydy e, dilynwch hwnnw!" Ddwedodd neb yr un gair. Felly dyma Elias yn dweud wrth y bobl, "Fi ydy'r unig un sydd ar ôl o broffwydi'r ARGLWYDD, ond mae yna 450 o broffwydi Baal yma. Dewch â dau darw ifanc yma. Cân nhw ddewis un tarw, yna ei dorri'n ddarnau, a'i osod ar y coed. Ond dŷn nhw ddim i gynnau tân oddi tano. Gwna i yr un fath gyda'r tarw arall — ei osod ar y coed, ond dim cynnau tân oddi tano. Galwch chi ar eich duw chi, a gwna i alw ar yr ARGLWYDD. Bydd y duw sy'n anfon tân yn dangos mai fe ydy'r Duw go iawn."



-
- 12 Yna dyma Elias yn dweud wrth broffwydi Baal, "Ewch chi gyntaf. Mae yna lawer ohonoch chi, felly dewiswch darw, a'i baratoi. Yna galwch ar eich duw, ond peidiwch cynnau tân." A dyma nhw'n galw ar Baal drwy'r bore, nes oedd hi'n ganol dydd, "Baal, ateb ni!" Ond ddigwyddodd dim byd — dim siw na miw. Roedden nhw'n dawnsio'n wyllt o gwmpas yr allor.



-
- 13 Yna tua canol dydd dyma Elias yn dechrau gwneud hwyl am eu pennau nhw. "Rhaid i chi weiddi'n uwch! Dewch, duw ydy e! Falle ei fod e'n myfyrio, neu wedi mynd i'r tŷ bach, neu wedi mynd ar daith i rywle. Neu falle ei fod e'n cysgu, a bod angen ei ddeffro!"



-
- 14 Roedd y bobl yn gwranddo ar Elias.



-
- 15 Dyma broffwydi Baal ac Ashera'n gweiddi'n uwch, a dechrau torri eu hunain gyda chyllyll a gwaywffyn.



-
- 16 Buon nhw wrthi'n proffwydo'n wallgof drwy'r p'nawn nes ei bod yn amser offrymu aberth yr hwyr. Ond doedd dim byd yn digwydd, dim siw na miw.



-
- 17 Doedd 'na ddim tân. Roedd proffwydi Baal wedi blino'n lân.



-
- 18 Yna dyma Elias yn galw'r bobl draw ato. Ar ôl iddyn nhw gasglu o'i gwmpas, dyma Elias yn trwsio allor yr ARGLWYDD oedd wedi cael ei dryllio. Cymerodd 12 o gerrig — un ar gyfer pob un o lwythau Jacob (Israel). A dyma fe'n defnyddio'r cerrig i godi allor i'r ARGLWYDD.



-
- 19 Yna dyma fe'n cloddio ffos eithaf dwfn o gwmpas yr allor. Wedyn gosododd y coed ar yr allor, torri'r tarw yn ddarnau a'i roi ar y coed. Yna dyma fe'n dweud, "Ewch i lenwi pedwar jar mawr gyda dŵr, a'i dywallt ar yr offrwm ac ar y coed." Ar ôl iddyn nhw wneud hynny, dyma fe'n dweud, "Gwnewch yr un peth eto," felly dyma nhw'n gwneud hynny. "Ac eto," meddai, a dyma nhw'n gwneud y drydedd waith. Roedd yr allor yn socian, a'r dŵr wedi llenwi'r ffos o'i chwmpas.



-
- 20 Pan ddaeth hi'n amser i offrymu aberth yr hwyr, dyma Elias yn camu at yr allor, a dweud, "O ARGLWYDD, gad i bawb wybod heddiw mai ti ydy Duw Israel, ac mai dy was di ydw i. Dangos fy mod i'n gwneud hyn am mai ti sydd wedi dweud wrtho i. Ateb fi, O ARGLWYDD, er mwyn i'r bobl yma wybod mai ti ydy'r Duw go iawn, a dy fod ti'n eu troi nhw'n ôl atat ti."



-
- 21 Yn sydyn dyma dân yn disgyn oddi wrth yr ARGLWYDD a llosgi'r offrwm, y coed, y cerrig a'r pridd, a hyd yn oed sychu'r dŵr oedd yn y ffos.



-
- 22 Pan welodd y bobl beth ddigwyddodd, dyma nhw'n syrthio ar eu gliniau a'u hwynebau ar lawr.



-
- 23 Roedden nhw'n gweiddi, "Yr ARGLWYDD ydy'r Duw go iawn! Yr ARGLWYDD ydy'r Duw go iawn!"



-
- 24 Yna dyma Elias yn dweud, "Daliwch broffwydi Baal! Peidiwch gadael i'r un ohonyn nhw ddianc!" Ar ôl iddyn nhw gael eu dal, dyma Elias yn mynd â nhw i lawr at Afon Cison a'u lladd nhw i gyd yno.



-
- 25 Mae yna glip ffilm Cymraeg am hanes Elias ar wefan beibl.net Cyfieithwyd gan www.beibl.net



THE WORD IN PICTURES

www.freebibleimages.org
